Roedd y cofnodion wedi cael eu cylchredeg cyn y cyfarfod. Cynigiodd Gordon Warren fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd y cynnig gan John Griffiths. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

3 **Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol**

Gerddi Cestyll – Cadarnhawyd i'r aelodau gan Mr Jonathan Jenkin bod cael gwared â'r coed ar y safle wedi digwydd oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch ac oherwydd bod gwreiddiau'r coed yn pydru ac yn anniogel. Mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn â phlannu coed yn eu lle er mwyn gwneud iawn am gael gwared ohonyn nhw.

Adolygiad Blynyddol o'r Cyfrifon – Roedd JJ yn dymuno ymddiheuro oherwydd mae eto i ystyried y cyfeiriad a ddyfynnwyd yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol. Gyda golwg ar Adroddiad Holliday, nododd fod y dyddiad cyhoeddi eto i'w gytuno, gyda chyfyngiadau Covid-19 yn ffactor ychwanegol sy'n cyfrannu at yr oedi. Fodd bynnag, nododd nad oes gan yr oedi unrhyw oblygiadau i waith yr ADN.

4 **Adroddiad Cadeirydd GRhS**

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf a thynnodd sylw arbennig at:

- Yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Llanbadrig a oedd yn dymuno anfon ei werthfawrogiad drwy GRhS i Magnox am eu holl waith cydweithredol a'r perthnasoedd da a wnaed gyda'r gymuned leol.
- Cyfarfod buan arfaethedig gyda'r SRN er mwyn trafod swyddogaethau a chyfrifoldebau GRhS.
- Mae cyfarfodydd rhithwir wedi cael eu cynnal rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion GRhS a'r ADN. Yng ngoleuni'r amgylchiadau presennol, mae cyfnod y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion presennol wedi cael ei ymestyn am 12 mis.
- Mae Trawsfynydd wedi cael ei nodi fel safle arweiniol ar gyfer datgomisiynu adweithyddion.

5 **Adroddiad Cyfarwyddwr Safle'r Wylfa**

Cyflwynodd Stuart Law ei adroddiad, ac roedd copïau ohono wedi cael eu cylchredeg yn y pecynnau cyfarfod. Dangosodd fideo a oedd yn trafod y cerrig milltir cyflawni a gyrhaeddwyd yn 2019/20 a lwyddodd i gyrraedd Targed o Sero. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Cwblhawyd ymgyrch pedair blynedd i wagio adweithyddion mwyaf y DU yn ddiogel ac mewn modd sy'n cydymffurfio.
- Anfonwyd 87,890 o elfennau tanwydd disbyddedig i Sellafield mewn 586 o fflasgiau – cymaint ddwywaith ag unrhyw safle Magnox arall.
- Derbynwyd dilysiad di-danwydd ar gyfer pob un o'r 392 safbibell ym mhob adweithydd.
- Gwaredwyd â 180 tunnell o asedau diangen yn erbyn targed o 125 tunnell.
- Diffoddwyd moduron y pypiau oeri dŵr môr, gan arbed £250k y flwyddyn.
- Adolygwyd a gwaredwyd â thros 3000 o gofnodion.
- Rhoddwyd cymorth i 15 o sefydliadau cymunedol dderbyn rhan o'r cyllid Magnox o £176k.

Ymgwymerwyd â mesurau saib gweithredol

Nododd SL ar 16eg Mawrth fod Magnox wedi gwneud y penderfyniad rhagweithiol i roi saib i'r holl weithrediadau dianghenraid ar draws yr holl safleoedd er mwyn diogelu'r gweithlu a'r cymunedau lleol yn ystod pandemig Covid-19. Roedd y penderfyniad yn cael ei reoli drwy'r prosesau cymeradwyo arferol a'u cadarnhau gan y Rheoleiddwyr. Mabwysiadwyd Cynlluniau Parhad Busnes a sefydlwyd canolfan rheoli digwyddiadau'r busnes er mwyn cydlynu cefnogaeth y rheng flaen ar gyfer isadeiledd cenedlaethol a chymunedau lleol drwy ddarparu adnoddau i Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Lleol a fforymau gwydnwch. O ganlyniad ar 20fed Mawrth, aeth safle Wylfa i saib gweithredol mewn modd diogel a chyda gofal am yr amgylchedd. Gofynnwyd i staff weithio o'u cartrefi, pan oedd hynny yn bosibl, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth a'r weinyddiaeth ddatganoledig. Diolchodd SL i'r tîm diogelwch a oedd yn parhau i ddiogelu'r safle 24/7 yn ystod y saib ac i aelodau'r gweithlu a oedd yn sicrhau bod rhwymedigaethau'r busnes a'r rhwymedigaethau rheoleiddio yn cael eu cwrdd bob amser.

Anogodd Magnox i'r staff wirfoddoli yn y gymuned os oedden nhw'n gallu, a daeth dros 50 o aelodau'r staff i siopa i'r henoed a'r bregus, danfon presgripsiynau, sefydlu banciau bwyd, casglu blychau bwyd at ei gilydd, defnyddio argraffyddion 3D i wneud PPE a gwnïo bagiau sgrybs ar gyfer gweithwyr y GIG. Cyfrannodd staff yr Wylfa yn hael er mwyn helpu prynu I-pad, radio DAB a dwy set deledu fechan ar gyfer Uned Gofal Dwys Ysbyty Gwynedd.

Cyfrannodd Magnox fwy na 130,000 o eitemau cyfarpar diogelwch personol sy'n arbed bywydau – daeth 21,000 ohonyn nhw o safleoedd Wylfa a Thrawsfynydd. Roedd yr eitemau a gyfrannwyd yn cynnwys anadlyddion

untro, dillad a menig diogelwch gan Magnox a'n contractwyr a'n cyflenwyr a chafodd y rhain eu rhoi i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn cael eu dosbarthu yn hytrach na'u rhoi i unigolion annibynnol.

Paratoadau ar gyfer ailddechrau

Ymgwymerwyd â gwaith sylweddol drwy'r cwmni er mwyn cynllunio i'r safleoedd ailagor eu rhaglenni gwaith ac ailddechrau gwaith ffisegol yn unol â'r mesurau rheoli a amlinellir yn Safon newydd y Cwmni ar gyfer Canllawiau Diogelu Iechyd. Dychwelodd tîm o chwe gweithiwr i'r Wylfa ar ddechrau mis Mehefin er mwyn asesu'r mesurau pellter cymdeithasol, y systemau unffordd ar gyfer cerddwyr, trefniadau glanhau yn drylwyr ynghyd â'r trefniadau iechyd a lles sydd eu hangen i gefnogi'r gweithlu i ddychwelyd yn raddol ac yn gymesur i'r gwaith yn ddiogel. Dychwelodd oddeutu 25 o weithwyr i'r gwaith bob wythnos drwy gydol mis Mehefin a dechreuodd y Contractwyr *Altrad* ac *Element* waith yn gynnar ym mis Gorffennaf er mwyn gweithredu'r amddiffyniadau Covid-19 a oedd eu hangen i wahodd eu staff yn ôl i'r safle.

Dychwelyd i'r 'Normal Arferol'

Parhaodd y gweithlu i baratoi mewn modd sefydlog, reoledig drwy gydol mis Gorffennaf, gyda'r nod i bawb weithio wythnos waith lawn erbyn 7fed Awst, un ai ar y safle, gweithio o'u cartrefi neu gyfuniad o'r ddau er mwyn ailddechrau cyflawni ein cenhadaeth. Ymwelodd Arolygydd SRN y safle ar 28ain Gorffennaf er mwyn asesu'r mesurau rheoli Covid-19 sy'n bodoli a thrafod y rhain gyda grŵp bychan o gynrychiolwyr diogelwch a arweiniodd at dybio bod y safle yn ddiogel i staff gael dychwelyd. Dechreuodd yr Wylfa ar gyfnod 'Normal Arferol' ar 7fed Awst fel ag a gynlluniwyd, gydag oddeutu 130 o bobl ar y safle, wrth eu gwaith, symud ymlaen gyda gweithgareddau, didoli gwastraff ac ymgymryd â gwaith cynnal a chadw arferol.

Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Mae'r safle yng nghamau cynnar ei gyfnod datgomisiynu. Yn wahanol i safleoedd eraill Magnox, nid yw dychweliad Wylfa i'r normal arferol yn cynnwys ailddechrau casglu a phrosesu gwastraff lefel ganolraddol nac ailddechrau prosiectau sifil ar raddfa fawr. Yn ystod y ddeufis nesaf, bydd cynllun gydol oes diwygiedig yn cael ei ddatblygu a fydd yn amlinellu'r gwaith sydd i'w gyflawni yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Bydd yr achosion busnes sydd eu hangen ar gyfer y prosiectau rheoli asedau yn cael eu llunio cyn 31ain Mawrth 2021. Yn ogystal, mae amserlen cynnal a chadw'r safle o dan adolygiad er mwyn gweld lle y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd ac mae grŵp prosiect yn cael ei sefydlu er mwyn gweithredu'r cynllun gwella rheoliadau 'Trydan yn y Gwaith'.

Prosiectau'r Tymor Hirach

Mae angen System Troshaenu Trydanol newydd er mwyn newid y ffordd y mae ynni trydanol yn cael ei ddosbarthu fel galluogwr allweddol ar gyfer y

gwaith datgomisiynu a'r prosiectau dymchwel y mae'r safle angen eu cyflawni fel rhan o'r cynllun datgomisiynu.

Bydd rhan segur o'r safle sy'n ymdrin â CO₂ yn cael ei dymchwel a bydd hyn yn creu ardal fawr ar gyfer adeiladu prosiectau sifil eraill.

Bydd mwy o waith adferol ynglŷn ag asbestos yn cael ei wneud yn adeiladau'r adweithyddion a byddwn yn disgrifio nodweddion y gwastraff ymbelydrol ôl-weithredol er mwyn iddo gael ei gasglu, ei brosesu a'i storio yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae 140 o bobl yn gweithio ar safle'r Wylfa. Bydd staff Swyddfa Cefnogi Magnox sydd â desg ar y safle yn parhau i weithio o'u cartrefi hyd y gellir rhagweld.

Wylfa ar BBC One Wales

Mis Awst y llynedd, cafwyd ymweliad gan griw ffilmio *Hidden Wales* i recordio'r darlledwr Will Millard a Medwyn Williams, Rheolwr Integreiddio'r Wylfa, yn twrio i hanes y safle a gweld sut mae gweithrediadau gwaredu tanwydd yn gweithio. Cofiwch wyllo'r bennod arbennig hon o'r Ail Gyfres pan gewch chi weld y tu ôl ac uwchben i'r llenni ar ddydd Gwener, 9fed Hydref am 7.30pm.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb

Holodd Derek Owen a oedd staff yn cael gwirio'u tymheredd fel mesur o ganfod Covid-19. Dywedodd SL fod mesurau diogelwch cadarn wedi cael eu mabwysiadu gyda Covid-19, fel pellter cymdeithasol, systemau cerdded unffordd, glanhau dwys a threfniadau iechyd a lles. Fodd bynnag, nododd nad oedd profion tymheredd yn cael eu cynnal oherwydd nad oedd Magnox yn teimlo eu bod yn gwbl ddi-feth.

Diolchwyd i Mr Law am ei adroddiad diweddar manwl.

Gadawodd Virginia Crosbie y cyfarfod ar yr adeg hon.

6 Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Croesawyd Mr J McNamara a Mr J Jenkin i'r cyfarfod a gwnaethon nhw gyfeirio at eu hadroddiad a oedd yn tynnu sylw at y canlynol:-

Cynllun adferiad yr ADN

Bu tîm Adferiad yr ADN yn gweithio yn galed i lunio ymateb i amgylchiadau newidiol pandemig y Covid-19. Dros yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod, bydd safleoedd yr ADN yn parhau â'u cynlluniau ailddechrau, gyda diogelwch y gweithlu a diogelwch y safleoedd yn flaenoriaeth allweddol bob amser. Mae rhai o'r busnesau wedi parhau i weithio fel arfer drwy gydol argyfwng y Covid, gan gynnwys *DRS* sydd wedi bod yn cludo miloedd o gynwysyddion o gyflenwadau allweddol ar gyfer cymunedau drwy'r wlad.

Gan weithio fel Grŵp Un ADN, mae *Microsoft Teams* wedi cael ei chyflwyno ar draws yr holl fusnesau er mwyn cefnogi'r gweithlu sy'n gweithio o'u cartrefi.

O'r 20fed Gorffennaf, agorodd swyddfeydd yr ADN i nifer cyfyngedig o staff lle mae gwir angen o safbwynt busnes – ond bydd y rhan fwyaf yn parhau i weithio o'u cartrefi am y tro.

Yn anfodlon, mae'r Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid a oedd i ddigwydd ym mis Hydref, ynghyd â digwyddiad Cadwyn Gyflenwi'r ADN wedi cael eu gohirio. Fodd bynnag, bydd ymgysylltu rhithwir â Fforwm Grŵp Rhanddeiliaid y Safle a'r Awdurdodau Lleol drwy *NuLeAF* (Fforwm Cynghori ar Etifeddiaeth Niwclear) yn ystod mis Medi.

Parthed yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar fersiwn ddrafft Strategaeth 4 yr ADN, cynhelir diwrnod rhan o'r ffordd drwy'r ymgynghoriad 12 wythnos, sy'n dechrau ar 17eg Awst ar gyfer rhanddeiliaid ynglŷn â Strategaeth 4.

Yn olaf, mae digwyddiad ar gyfer Rhanddeiliaid wedi cael ei gynllunio ar gyfer 20fed Tachwedd 2020, a fydd yn canolbwyntio ar ddull yr ADN tuag at reoli gwastraff integredig, a bydd yn un o'r digwyddiadau a fydd yn disodli ein huwchgynhadledd sydd wedi cael ei gohirio.

Bydd aelodau yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r holl ddigwyddiadau rhithwir a drefnwyd.

Cyhoeddi diwedd contractau'r Sefydliadau Rhiant-Gorff (SRhG)

Ar 10fed Gorffennaf, cwblhaodd yr ADN garreg filltir arall drwy greu Grŵp Un ADN cydlynol drwy gyhoeddi y bydd Dounreay a LLWR yng Ngorllewin Cymbria yn dod yn is-gwmnïau i'r ADN. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at ffordd llawer mwy effeithiol ac effeithlon o gyflawni cenhadaeth gytunedig y busnes.

Mae'r ddau Sefydliad Rhiant-Gorff (SRhGau) wedi chwarae swyddogaeth allweddol wrth gyflawni'r genhadaeth hon yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae rhai cerrig milltir mawr wedi cael eu cyflawni ar y ffordd tuag at y genhadaeth ddatgomisiynu. Mae'n rhaid peidio â gweld y newidiadau hyn fel beirniadaeth o'r SRhGau; canlyniad ydyn nhw o amcan Un ADN o greu sefydliad sy'n manteisio ar gyfoeth o brofiad a thalent – mae oddeutu 16,000 o bobl yn helpu i gyflawni cenhadaeth yr ADN, un o'r gweithluoedd mwyaf arloesol yn unrhyw le yn y byd.

Cyhoeddi Safle Arweiniol ar gyfer datgomisiynu cyflymach

Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr ADN ei fwriad i symud ymlaen gyda datgomisiynu adweithyddion ar safle Trawsfynydd, yn dilyn adolygiad o'r

strategaeth hanesyddol i ohirio datgomisiynu adweithyddion ar bob safle adweithyddion Magnox. Amcan y strategaeth newydd yw datgomisiynu'r adweithyddion yn llawn heb gyfnod gohirio.

Bydd y profiad a'r gwersi a ddysgwyd o ddatgomisiynu Trawsfynydd yn darparu gwybodaeth ar gyfer adolygiad ehangach er mwyn datblygu strategaethau penodol i'r safle ar gyfer pob safle lle ceir adweithyddion Magnox. Tra disgwylir y bydd y strategaethau datgomisiynu newydd sy'n benodol i safleoedd yn cael eu diffinio dros y 12 i 18 mis nesaf, byddan nhw'n cael eu hadolygu a'u mireinio yn barhaus drwy ddefnyddio'r dysgu a gafwyd o'r safleoedd datgomisiynu.

Bydd cyfeiriad at Drawsfynydd fel y safle arweiniol a dargedir yn cael ei wneud yn fersiwn ddrafft Strategaeth 4.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Ar 10fed Gorffennaf, cyhoeddwyd adroddiad blynyddol a chyfrifon 2019 at 2020 ar gov.uk. Roedd rhai o'r uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Datgan bod holl safleoedd Magnox yn ddi-danwydd ar ôl i'r Swyddfa dros Reoli Niwclear (SRN) roi ei 'ddilysiad di-danwydd' swyddogol i Wylfa ym mis Hydref 2019. Roedd hyn yn nodi diwedd y gweithrediadau gwaredu tanwydd mewn 26 o adweithyddion Magnox.
- Mae pob un o'r 11 tunnell o blwtoniwm a wahanwyd wedi cael ei gludo yn awr yn ddiogel o Dounreay i Sellafield.

Cefnogaeth yr ADN ar gyfer gwydnwch cymunedau

Mae'r ADN a'i Gwmnïau sydd â Thrwydded ar gyfer y Safle yn parhau i weithio gyda chymunedau i gefnogi gwydnwch lleol yn ystod yr argyfwng Covid-19 presennol. Bydd cyllid o hyd at £25k y safle ar gael ar gyfer amrywiaeth o ddibenion o amgylch safleoedd Magnox. Mae'r cyllid yn ffurfio rhan o'r 12 grant, sy'n werth cyfanswm o £300,000 y mae Magnox a'r ADN wedi'u cyfrannu i awdurdodau lleol neu elusennau lle ceir safleoedd Magnox.

Diweddariad ynglŷn â Strategaeth 4 yr ADN

Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o'r bedwaredd Strategaeth yng nghanol mis Awst a bydd yn amodol ar ymgynghoriad 12 wythnos. Dosbarthwyd pecyn gwybodaeth cyn ymgynghori i'r rhanddeiliaid ym mis Mehefin a oedd yn tynnu sylw at rai o'r newidiadau a ellir eu gweld yn fersiwn ddrafft Strategaeth 4. Atgoffwyd yr aelodau i anfon unrhyw ymateb drwy'r sianelau a nodwyd eisoes erbyn 8fed Tachwedd 2020.

Cynllun Effaith Cymdeithasol yr ADN

Mae'r cynllun uchod wedi cael ei ddiweddarau. Y ddogfen hon yw'r fersiwn ddiweddaraf o strategaeth gymdeithasol-economaidd yr ADN ac aeth allan ar

gyfer ymgynghoriad ychydig cyn i gyfyngiadau symud Covid-19 ddechrau yn y DU. Mae'r heriau cymdeithasol ac economaidd sy'n wynebu'r DU yn awr yn wahanol iawn ac mae newidiadau wedi cael eu gwneud er mwyn adlewyrchu'r heriau hyn. Gwahoddwyd yr aelodau i anfon unrhyw sylwadau pellach drwy'r sianelau arferol.

Carbon Sero Net

Mae Prosiect Beacon Carbon Sero Net yr ADN ar y gweill, ac mae'n canolbwyntio ar sut y gallwn ni leihau ein hól-troed carbon drwy'r grŵp, gyda chefnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Garbon.

Nodau'r prosiect yw:

- Deall a darparu gwaelodlin ôl-troed carbon ein busnesau.
- Datblygu a dechrau gweithredu cynllun i leihau ein hallyriadau, ac ymchwilio i ddewisiadau er mwyn gwrthbwysu unrhyw allyriadau sy'n weddill.
- Darparu adnoddau ar gyfer y cynllun er mwyn sicrhau y gallwn ni symud i sero net yn y Prosiectau Beacon yn y dyfodol a helpu i sbarduno mabwysiadu Un ADN a chael budd ohono.

Arolwg Rhanddeiliad yr ADN 2020

Cynhaliwyd Arolwg Rhanddeiliad yr ADN 2020 rhwng mis Ionawr a mis Ebrill eleni gan arbenigwyr arolygon barn annibynnol sef *Opinion Research Services* (ORS). Cyfranogodd 638 o randdeiliaid.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiwn.

7 Diweddariad y Swyddfa dros Reoli Niwclear

Roedd Mr Ian Dallas yn methu â mynychu'r cyfarfod. Fodd bynnag, cafodd adroddiad y SRN a oedd yn darparu diweddariad ynglŷn â'r sefyllfa ei gynnwys yn y pecyn cyfarfod, a nododd Mr Dallas ei fod yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau drwy'r cyfleuster *ZOOM Chat* pe bai unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad neu unrhyw faterion SRN eraill. Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

8 Diweddariad gan Gyfoeth Naturiol Cymru

Yn absenoldeb Iwan Williams, roedd Rona Arkle yn bresennol i gyflwyno adroddiad CNC/AA.

Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod ers mis Mawrth 2020 ac roedd yn cyfeirio at y canlynol:

Saib ac ailddechrau'r gweithrediadau

Penderfynodd Magnox Cyf roi'r gorau i'r gweithrediadau dianghenraid ar

safle'r Wylfa yn ystod y cyfnod ymateb i bandemig y Covid-19. Gweithredwyd y Trawsnewidiad Symud Gweithredol (OST) ar 20fed Mawrth 2020, ac aeth y safle yn syth i 'saib', gyda'r gweithrediadau hynny a oedd yn cael eu hystyried yn rhai hanfodol yn unig yn parhau er mwyn cynnal diogelwch ac atal niwed amgylcheddol.

Ni chafodd nifer o weithgareddau cydymffurfio eu cynnal, yn unol â threfniadau arferol yn ystod y 'saib'.

- Ni chafodd gollyngiadau ymbelydrol i'r aer eu monitro yn uniongyrchol yn ystod y saib, ond byddan nhw'n cael eu hasesu yn ôl-weithredol. Mae gollyngiadau o'r Wylfa fel arfer yn isel ac yn sefydlog ac maen nhw'n cael effaith amgylcheddol isel.
- Gohiriwyd y tasgau cynnal a chadw amgylcheddol arferol a oedd ar fin eu cwblhau yn ystod y 'saib'. Mae nifer o Wiriadau Llwybr Gweithredwr y Safle (PORCs) wedi cael eu cynnal ddwywaith yr wythnos er mwyn monitro cyflwr y safle yn ystod y saib.
- Gohiriwyd rhaglen monitro amgylcheddol Magnox Cyf. yn ystod y saib, ond ailddechreuwyd arni ym mis Awst 2020. Darparodd Magnox Cyf gyfiawnhad dros y newidiadau hyn, ac roeddem ni'n meddwl eu bod yn rhesymol o gofio'r amgylchiadau digyffelyb a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig a'r cyfyngiadau gan y llywodraeth.

Mae'n ymddangos bod y trefniadau hapddigwyddiadau wedi gweithio yn dda yn ystod y 'saib', gyda'r Rheolwr Dyletswydd a'r Ymatebwr Digwyddiadau yn mynychu'r safle ar nifer o achlysuron er mwyn ymateb i larymau'r safle.

Nodwyd bod Magnox Cyf wedi mabwysiadu dull gofalus at ddychwelyd i'r safle, a amlinellir mewn Cynllun Ansawdd manwl. Mae cwblhau'r Cynllun Ansawdd wedi cael ei reoli drwy ryngweithiadau rheoleiddiol arferol, a disgwylir y bydd dychweliad at gydymffurfiaeth lawn yn cael ei wneud erbyn diwedd mis Medi 2020. Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal 'arolygiad o bell' ar ailddechrau'r gweithrediadau rheoli gwastraff yn yr Wylfa, ac ni chanfyddwyd unrhyw faterion cydymffurfio.

Edrych tuag at y dyfodol

Rydym yn ymgysylltu yn uniongyrchol â nifer o brosiectau sy'n dechrau neu'n ailddechrau ar y safle'r mis hwn, gan gynnwys paratodau ar gyfer dymchwel adeiladau ategol ac mae'r gwaith disgrifio nodweddion y Gwastraff Lefel Ganolraddol (GLG) ar y gweill.

Ar hyn o bryd, mae Magnox Cyf yn adolygu ei Gynllun Gydol Oes (CGO) a'i strategaeth datgomisiynu penodol i'r safle ar gyfer yr Wylfa, a fydd yn penderfynu cwmpas y gwaith sydd i'w gwblhau yn ystod y cyfnod Paratodau

Gofal a Chynnal a faint o wastraff (ymbelydrol ac anymbelydrol fel ei gilydd) a fydd yn cael ei gynhyrchu.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau amgylcheddol arwyddocaol yn yr Wylfa yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu gorfodi gan CNC/AA yn ystod y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiwn.

9 Diweddariad ynglŷn â Chynllun Cymdeithasol-Economaidd Magnox

Darparodd Mair Jones gyflwyniad byr ynglŷn â chyflawniadau'r cynllun cymdeithasol-economaidd.

Nododd hi fod y cynllun newydd yn awr ar agor i geisiadau o dan y System Grant 'Un ADN'. Mae hyn yn gwneud y broses a'r cysondeb yn gydnaws ar drwy ystâd yr ADN. Mae'r fformat ar gyfer grantiau yn parhau'r un fath, gyda chyllid o hyd at £1,000 (lefel Cymydog Da), tra bod disgwyl i geisiadau uwch, a'r rhai hynny ar gyfer cyllid am nifer o flynyddoedd, o hyd at £200,000 gydymffurfio ag amrediad o feini prawf sydd wedi cael eu hanelu at greu economïau gwydn, cymunedau sy'n ffynnu, incymau cynaliadwy a thwf ar gyfer ein cymunedau.

Mae Magnox a'r ADN wedi cyhoeddi hwb ariannol o £25,000 er mwyn helpu i ddarparu grwpiau bregus ar Ynys Môn gyda gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Covid-19. Roedd y cyllid yn rhan o'r 12 grant, sef cyfanswm o £300,000 y mae Magnox wedi'u cyfrannu i awdurdodau lleol a leolir wrth ymyl safle Magnox.

Rhoddwyd yr arian i Gyngor Sir Ynys Môn i gefnogi'r gymuned yn ystod pandemig y Coronafeirws. Prynwyd dau o argraffyddion 3D ar gyfer Ysgol Syr Thomas Jones i wneud feisorau diogelwch ar gyfer gweithwyr allweddol a gwirfoddolwyr; gellir defnyddio'r rhain yn yr ysgol am flynyddoedd.

Roedd gweithwyr allweddol y Post Brenhinol yn Llangefni yn un o'r llawer o sefydliadau a dderbyniodd feisorau a gynhyrchwyd yn yr ysgol. Yn ogystal, buddsoddwyd cyllid i brynu bwyd ar gyfer Banc Bwyd Amlwch a'r prosiect dosbarthu bwyd 'Neges'.

Sefydlodd y prosiect 'Neges' – Bwyty Dylan's a Menter Môn, gyda chymorth asiantaethau eraill, wasanaeth danfon bwyd er mwyn sicrhau bod y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau yn cael eu bwydo, gan ddanfon parseli bwyd drwy Ynys Môn a Gwynedd.

Canfyddodd yr awdurdodau lleol deuluoedd ac unigolion bregus a allai gael

budd o'r gefnogaeth. Yn ogystal, darparodd 'Neges' brydau ar gyfer staff Ysbyty Gwynedd a oedd yn methu â mynd i'r cantîn oherwydd cyfyngiadau Covid-19. O fewn saith wythnos, roedd 3,479 o unigolion wedi elwa o'r cynllun a danfonwyd 1,554 o barseli bwyd. Derbyniwyd sawl neges o ddiolch gan y Cyngor Sir a sefydliadau eraill yn y gymuned.

Diweddariad ynglŷn â phrosiectau cymdeithasol-economaidd a gyllidwyd am sawl blwyddyn

Derbyniodd Cymunedau'n Gyntaf Ynys Môn (CG Môn) gymeradwyaeth gan Swyddog Gweithredol Magnox ar gyfer cyfran olaf y cyllid o £100,000 ar gyfer y drydedd flwyddyn i barhau i redeg yr Academi Hyfforddi yn llwyddiannus. Mae cyllid Magnox wedi diogelu swyddi'r Rheolwr Cyflawni a'r Cydlynnydd Tîm Hyfforddi yn flynyddol am y tair blynedd ddiwethaf. Y llynedd, cefnogwyd 566 o unigolion drwy wasanaethau'r tîm cyflogaeth ac ymgwymerwyd â 807 o gyfleoedd hyfforddi drwy'r cynllun. Pasiodd chwech o gyfranogwyr eu prawf gyrru ymarferol, sy'n rhan o Raglen Teithio i'r Gwaith a gyllidwyd gan Magnox. Ers y cyfyngiadau symud, mae CG Môn wedi gweithio gyda'u cyrff achredu i alluogi cyflwyno dysgu o bell drwy *Zoom*. Aeth y gwasanaeth hwn yn fyw ar 1af Mehefin ac o fewn wythnos, roedd 42 o gyrsiau unigol wedi cael eu harchebu. CG Môn yw'r unig sefydliad ym Môn i allu cyflwyno dysgu o bell sydd "Wedi cael ei Achredu yn Llawn".

Yn ogystal, derbyniodd Prosiect STEM y Gogledd gymeradwyaeth ar gyfer y gyfran nesaf o gyllid. Derbyniodd y rhaglen sy'n anelu i ysbrydoli, hyrwyddo a chefnogi addysg STEM ymysg y rhai sydd rhwng 11 ac 19 oed, £50,250 arall er mwyn parhau â'r drydedd flwyddyn. Mae'r prosiect yn symud ymlaen yn dda ac erbyn hyn mae 17 o ysgolion yn cymryd rhan. Mae'r tri mentor sy'n ymdrin ag Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy wedi datblygu perthynas waith dda gyda'r ysgolion, y cyflogwyr lleol a'r sefydliadau ac mae dros 40 o ddigwyddiadau llwyddiannus wedi cael eu cynnal hyd yma.

Diolchodd y Cadeirydd i MJ am ei chyflwyniad manwl ac anogodd cymunedau lleol i fanteisio yn llawn ar y cyllid sydd ar gael.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb

Ni chodwyd unrhyw gwestiwn.

10 Ymgynghoriad Cyhoeddus ynglŷn â Fersiwn Ddrafft Strategaeth 4 Trafodwyd hyn yn Eitem 6 uchod.

Holodd y Cadeirydd a oedd aelodau yn dymuno cynnal cyfarfod arall drwy *Zoom* er mwyn trafod Ymgynghoriad Cyhoeddus Strategaeth 4 yr ADN a chytuno ar ymateb GRhS. Cytunwyd y dylai aelodau anfon eu sylwadau at y Cadeirydd y tu allan i'r cyfarfod.

11 Sesiwn Fforwm Agored ar gyfer Cwestiwn ac Ateb

Ni chodwyd unrhyw gwestiwn.

12. Unrhyw Fater Arall

Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch yn arbennig i Jill Callander am ei holl waith o drefnu sawl cyfarfod rhithwir yn ddiweddar ar gyfer y GRhS a'i aelodau.

Ailadroddodd Derek Owen ddiolchiadau'r Cadeirydd i JC ac roedd hefyd yn dymuno diolch i Stuart Law a'i staff am bopeth yr oedden nhw wedi'i wneud yng Ngogledd Môn. Roedd Gordon Warren hefyd yn dymuno diolch i SL a'i dîm, gan gydnabod pwysigrwydd y gwaith a wnaed yn ddiweddar mewn amser mor fyr.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu'r cyfarfod a daeth y cyfarfod i ben am 2.55pm.

Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf – 11eg Chwefror 2021 a 09fed Awst 2021